

## Merched y Wawr - Cangen Llannau'r Tywi - Pant-yr-Athro – Medi 2017

Gwesty Pant-yr-Athro oedd lleoliad cyfarfod cynta'r tymor wrth groesawu'r prifardd Mererid Hopwood. Cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr gan Gwyneth Stephens wrth iddi roi braslun o hanes, gyrfa eang a thalent amlwg y wraig amryddawn, y ferch gyntaf i ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol.

Taith ieithyddol gafwyd gan Mererid wrth iddi adrodd storiâu am ei magwraeth yng Nghaerdydd yn ogystal â darllen darnau o'i gwaith. Clywsom ei dehongliad syml a dealladwy o'r salm "Yr Arglwydd yw fy Mugail" gyda dylanwad Sir Benfro yn amlwg ar y gwaith. Yr angen i sicrhau addysg Gymraeg i'r teulu oedd y sbardun, yn gyntaf, i symud o Lundain i Gaerdydd, ac yn y pen draw, i Gaerfyrddin yn agosach i'w theulu yn Sir Benfro.

Pleser oedd gwrando ar ei cherddi teimladwy a nifer o storiâu doniol a dwys yn plethu'n naturiol gyda rheolau geiriau a gramadeg iaith. Mae ei phersonoliaeth fyrlymus a'i dawn cyflwyno caboledig yn rhoi iddi'r gallu i gynnal diddordeb cynulleidfa. Yn llawer rhy gynnar daeth y noson i ben. Diolchodd Eiry Jones iddi yn gynnes iawn am noson o fwynhad pur ac am roi o'i hamser prin i'n diddanu a'n haddysgu.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 18fed o Hydref wrth i ni gael hwyl a sbri yn bowlio deg yn Nhre-loan.